# DINESYDD

**Tachwedd**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 111


# £40,000 MEWN SAITH MIS

DYNA YW NOD ariannol Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Cylch bellach, ac o nawr tan fis Mai bydd holl dalgylch yr Eisteddfod yn fwrlwm o weithgareddau â'u hannel ar gyrraedd y nod.



RHAI O'R 20,000 o falŵns a ryddhawyd o Ysgol Glantaf pythefnos yn ôl. Bu dros gant o bobl wrthi dros y penwythnos yn eu llenwi â nwy helium. Rhyddhad mawr i'r trefnyddion oedd eu gweld yn codi i'r entrychion.

Gwerthwyd tocynau gan ganghennau'r Urdd ledled Cymru am 20c yr un a'r gobaith yw codi £1,000 tuag at yr Eisteddfod. Bydd perchen y balwn sy'n hedfan bellach yn ennill recordydd fideo a bydd y sawl sy'n dychwelyd y tocyn yn derbyn £50. Cyflwynir gwobr o £30 i'r sawl a werthodd y nifer mwyaf o docynnau.

Eisoes dychwelwyd balŵns o Wlad Belg a Ffrainc ond bydd yn rhaid aros tan ddiwedd mis Tachwedd i weld pwy sy'n ennill.

# SEINIAU'R STREIC



STREICIO'R NODYN CYWIR - Côr y Glowyr sy' ar Streic yn gwneud eu cyfraniad unigryw i'r gynhadledd ddiweddar yn Neuadd y Ddinas.

DAETH DROS DRI chant o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru i gyfarfod cyhoeddus cyntaf Cyngres Cymru er Amddiffyn Cymunedau Glofaol yn Neuadd y Ddinas, ar Sadwrn 20 Hydref.

Undeb y Glowyr yn Ne Cymru fu'n gyfrifol am greu'r Gyngres, sydd erbyn hyn yn wedi denu cefnogaeth gan aelodau seneddol, undebwyr llafur, arweinwyr llywodraeth leol ac eglwysig, Cymdeithas yr Iaith a Grŵp Gweithredu Ffermwyr Dyfed ymysg eraill.

Prif amcan y Gyngres yw sicrhau cefnogaeth ariannol i'r glowyr a'u teuluoedd tra phery'r streic, ond gwnaed yn gwbl amlwg mai amcan y pwyllgor llywio yw sicrhau parhad gweithredol y Gyngres wedi i'r streic orffen.

Cafwyd sawl cyfeiriad at yr undod cenedlaethol a grewyd yn sgil y streic a dywedodd un siaradwr ar ôl y llall na fyddai'r undod hwnnw yn mynd yn angof wedi'r streic.

PARTI NADOLIG Y DINESYDD

Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbeina
8 Rhagfyr am 7.30

Dewch yn llu!

## TU MEWN:


| | |
|---|---|
| Diwrnod Agored Llanishen | 3 |
| Dathlu'r Ysgolion | 4 |
| Ympryd Oxfam | 5 |
| Newyddion y 'Steddfod | 6&7 |
| Croesair y Dinesydd | 11 |

## CLWB IFOR BACH

11 HEOL WOMANBY, CAERDYDD
(Rhwng Blacks a Dukes,
cyferbyn â'r Castell)

Ffôn: (0222) 32199

# BWYD CARTREF BLASUS

BOB AMSER CINIO DYDD SADWRN

12.30 - 2.30

diodydd o bob math, gan gynnwys te, coffi, pop.

*Croeso i'r teulu cyfan!*

*Plant 0 - 110 mlwydd oed.*

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at y rhifyn Nadolig at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Tachwedd 29.

A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan

**GWENAN**

**CAERDYDD 732233**

Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.

SIOP AIL-LAW: Beth am fynd drwy bob cwpwrdd dror a thwll dan grisau a chael gwared ar bob dilledyn a thaclau na wnewch eu defnyddio beth eto. Agorodd siop ail-law cymuned Cyncoed a Glan y Llyn yn 128 Heol y Crwys ar ddydd Llun 29 Hydref, a bydd yn parhau ar agor tra pery'r stoc. Buasem yn falch o dderbyn eich sbarion - o unrhyw fath. Cysylltwch â Mrs.Avril Lewis, 751831. Bydd elw'r siop yn mynd at Gronfa Eisteddfod yr Urdd.

# Y CALENDR

TACHWEDD

8 - CLWB IFOR BACH
Cymdeithas Wleidyddol 8.00
Emrys Roberts,Ysg.Cyngor Iechyd Cymuned Gwent:
'Y Gwasanaeth Iechyd a Phreifateiddio'.

8 - CYLCH CINIO'R GWRAGEDD
Gwesty Thatchers, Heol Fidlas, Llanishen, 7.30.
Cysylltwch a 752755.

9 - CLWB IFOR BACH
Tecwyn Ifan £1.50.

12 - MERCHED Y WAWR, CAERDYDD.
Festri Capel Minny Street, Cathays, 7.30.
Noson o Ffilmiau.

12 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid, Velindre Rd., Yr Eglwysnewydd. 7.30.
Noson yng ngofal y llywydd, Dr. Ceinwen Thomas.

12 - CLWB IFOR BACH
Cymdeithas Hanes 8.00
Mair Thomas: 'Bywyd yr Arglwyddes Llanofer'

14 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon.
John Rees.

16 - CLWB IFOR BACH
Huw Chiswell £1.

17 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Neuadd yr Eglwys, Church Rd, Yr Eglwys Newydd. 10.30.
Bore coffi a stondin cacennau.

18 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Cymuned Penylan, Cymanfa Ganu yng Nghapel Minny St. 8.00. Mynediad trwy raglen, £1. Arweinydd Alun Davies.

19 - CYMDEITHAS WYDDONOL CAERDYDD
Clwb Ifor Bach, 8.00.
'Defnyddio Pelydrau Syncrotron', Yr Athro Robin Williams, Adran Ffiseg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

24 - YSGOL FEITHRIN LLANDAF
Salem, Canton, 2.00.
Ffair Nadolig. Mae Siôn Corn yn galw heibio.

24 - CLWB IFOR BACH
Cymru V Awstralia
Derec Brown a'r Racaracwyr.

26 - CLWB IFOR BACH
Cymdeithas Wleidyddol 8.00
Dr.Dafydd Huws: 'Tuag at Sosialaeth Gymreig?'

RHAGFYR

1 - YSGOL GLANTAF
Ffair Nadolig yn yr ysgol gydol y prynhawn. Pob math o atyniadau.

5 - CYMUNED TRELAI
Eglwys yr Atgyfodiad, Grand Ave. Trelai. 7.00. 50c
Cyngerdd Nadolig Plant Ysgolion Trelai.

7 - CYMRODORION CAERDYDD
Festri Tabernacl 7.15
Dadeni a Deffro - sgwrs gan Wyn Lloyd B.A.

7 - CLWB IFOR BACH
Noson Jazz yng nghwmni Wyn Lodwick a'r Band £1.

8 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Cymuned Penylan a'r Cylch
Trip i Gaerfyrddin yn gadael Caerdydd am 9.00 ac yn cychwyn yn ol am 6.00.
Tocyn bws: £4. Am ragor o fanylion ffoniwch Mair Davies, 492353.

9 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Gwasanaeth Nadolig gan ddisgyblion Glantaf yng Nghapel Ebeneser.

10 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid, Velindre Rd., Yr Eglwysnewydd. 7.30
Parti plant yng ngofal Mr. Howard Goodfellow.

10 - MERCHED Y WAWR, CAERDYDD.
7.30 Festri Capel Minny Street,Cathays.
Carol a chan gyda Glenys Roberts.

10 - CLWB IFOR BACH
Cymdeithas Hanes 8.00
Mrs.Eirene Anthony Davies: 'Hanes Cymrodorion Caerdydd'

12 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR.
Tŷ'r Cymry,11 Heol Gordon
8.00 Parti Nadolig.

14 - CYMDEITHAS GYMRAEG RADUR A'R FRO yng Ngwesty Ty Nant, Treforgan am 7.30.
Parti Nadolig yng ngofal Heddwyn Richards.

14 - CLWB IFOR BACH
4 yn y Bar £1.50.

15 - COR PHILHARMONIC CAERDYDD gyda CERDDORFA SIAMBR PHILHARMONIC.
Neuadd y Brifysgol,Heol Corbett am 7.30.
Perfformiad o Elijah (Elias)

Arweinydd:Alun Guy
Soprano:Jennifer Rhys-Davies
Contralto:Rachel Ann Morgan
Tenor:Anthony Morse
Bass:John King
Organ:Robert Court
Cyfeilyddion: John Howells a David Hamley.
Mynediad trwy raglen: £3.00; £2.50 i bensiynwyr a phlant.
Rhaglenni oddi wrth Margaret Barrett,Gwesty Penylan, Caerdydd. Ffon: 496444.

21 - CLWB IFOR BACH
Steve Eaves £1.50.

22 - CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG
Clwb Ifor Bach 9.00
Parti Nadolig Cell Caerdydd gyda'r Hwntws. £1.50.

# CITY!

CITY! - SIÔN EIRIAN/MADE IN WALES
SHERMAN 23 Hydref - 3 Tachwedd

DYLAI ACHLYSUR llwyfannu drama newydd o waith Siôn Eirian fod yn ddigwyddiad o bwys yng nghalendr y Theatr Gymraeg. Yn anffodus, dramau Saesneg fu dramau llwyfan un o'n dramodwyr ifanc gorau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny nid o ran dewis ond o ran y cynigion a ddaeth i'w ran.

Buasai gweld cyflwyniad Cymraeg o'i ddrama ddiweddaraf, City!, yn brofiad cyffrous. Yn anffodus, mae'n debyg y buasai'n rhy gyffrous i'r cynulleidfaoedd Cymreig. Pa bryd y down i sylweddoli bod yr iaith Gymraeg yr un mor abl i gyflwyno realiti heddiw a'r Saesneg, ond iddi gael y cyfle i anadlu.

Thema waelodol City! yw bod clwb peldroed, fel unrhyw sefydliad arall yn ein cymdeithas, yn adlewyrchu tensiynau a rhagfarnau'r gymdeithas honno. Distrywir y clwb gan yr union rymoedd sy'n distrywio cymdeithas; monetariaeth, hiliaeth, rhywiaetholdeb a thwyll.


Erbyn diwedd y ddrama mae'r clwb wedi'i rwygo, a'r rheolwr yn ddim ond cysgod o ddyn, heb unrhyw ffyddlondeb i chwaraewr, cyfaill nac egwyddor. O dan ormes "economeg" y cadeirydd, ni all wneud dim ond ymladd am ei swydd ei hun. Parhad yn unig sy'n cyfri. Dinas dywyll, ddi-obaith yw Dinas Barhaus Siôn Eirian - ac yr oedd y ddrama yn taro i'r byw ar bob lefel - yn arbennig o gofio datblygiadau diweddar ym mymyd clwb nid nepell oddiyma!

Proses gydweithredol yw sgwennu drama i Siôn Eirian, ac yr oedd yn amlwg bod City! yn dal heb ei llunio'n gyflawn eto. Roedd ansicrwydd weithiau, a'r newidiadau llwyfan o bryd i'w gilydd yn araf. Yn sicr gellid cwtogi a chynilo eto, ond roedd ergyd y ddrama'n effeithiol, a'r ail hanner yn llifo'n well na'r cyntaf.

Mae'r cwmni i'w canmol yn wyneb anhawsterau annisgwyl, ac yr oedd Hugh Thomas, a chwaraeodd y Cadeirydd, Emlyn, ar fyr-rybudd, yn arbennig. Cafwyd perfformiadau da hefyd gan Junior A.Walker a Nick Dowsett. Mae'r ddrama'n teithio i Abertawe, Yr Wyddgrug, Sain Donat a Llanfair-ym-Muallt, ar ôl gorffen yng Nghaerdydd.

Iwan Llwyd.


# ROF LLANISIEN DIWRNOD AGORED
## HYDREF 20ED




BWRIAD Y 'Diwrnod Agored' oedd profi honiad y Weinyddiaeth Amddiffyn bod ffatri R.O.F. Llanishen yn hollol ddiniwed ac ddim yn peri unrhyw fygythiad i'r gymuned leol a gweddill Caerdydd.

Ond doedd hynny ddim i fod. Ar waetha'r ffaith bod rhai cannoedd o bobl o bob rhan o Gymru wedi ymweld â'r ffatri yn ystod y dydd - rhai ohonynt o 5.30 y bore tan 6.00 y nos - roedd mwy o blismyn yno na phrotestwyr, gyda dau heddwas bob deg llath o gwmpas y ffatri a thu mewn i'r clwydi. Awgrym cryf fod yno rhywbeth yno i'w guddio rhag y cyhoedd!

Sicrhawyd felly nad oedd modd i neb fentro dros y ffens nac hyd yn oed ar y rheilffordd "gyffredin" gyferbyn â'r ffatri. Pa mor "ddiniwed" bynnag yw'r ffatri, nid oedd neb i gael gweld hyd yn oed muriau'r lle.



Bu sawl ymdrech yn ystod y dydd i fentro drwy'r ffens, a'r un neu ddau a lwyddodd yn cael eu cymeradwyo gan y dorf cyn eu harestio gan yr heddlu.

Canol pnawn, eisteddodd dros hanner cant o'r protestwyr ar ganol y ffordd ac atal y traffig, ond fe'u llusgwyd yn ôl i'r palmant yn fuan gan nifer helaeth o heddlu ychwanegol. Nid oedd y weithred i'w hail adrodd gyda llygaid barcud yr heddlu ar bawb am weddill y dydd.

Addurnwyd y ffens a'r palmant a symbolau o fywyd a harddwch a baneri a rhubanau. Ond erbyn bore trannoeth roedd pob un wedi diflannu - bu rhywun yn brysur yn glanhau yn ystod y nos.

Mae'n siwr bod nifer ohonoch yn gofyn pam y cynhaliwyd y fath brotest? - Mae'r ffeithiau fel a ganlyn:

* Gwyddom y bydd yr ROF yn gwneud darnau ar gyfer Trident D5.
* Gwyddom fod gan y ffatri ganiatad i ollwng defnyddiau ymbelydrol i'r carthffosydd a'r awyr.
* Gwyddom fod gan yr ROF drwydded i gadw hyd at 50 tunnell o Uranium 238.
* Bydd Trident D5 yn costio `11,500 o filiynau, hynny yw:
- 120 o Ysbytai Cyffredinol (adeilad,staff a chyfarpar.)
- ₤205 y pen gan bob unigolyn ym Mhrydain (plant ac oedolion.)
- Costau addysg gynradd Cymru a Lloegr am 6 mlynedd.

Byddai peidio gwario ar arfau niwcliar drwy'r byd am fis yn unig yn golygu bywyd a bwyd i bawb yn y trydydd byd am y 10 mlynedd nesaf o leiaf.

Os nad oeddech yno, cewch gyfle arall ym mis Rhagfyr i ddangos eich gwrthwynebiad i'r fath ffolineb. Bydd grŵp CND Cymraeg yn cynnal noson o gan carolau tu allan i'r ROF. Gwyliwch y wasg am ddyddiad!

Gwyddom y ffeithiau bellach - a fedrwn eistedd yn ôl a pharhau i edrych o hirbell? A fedrwn fforddio peidio ymuno â'r ymgyrch dros heddwch, a'n dyfodol ni a'n plant?

MEINIR VITTLE

# PENBLWYDD HAPUS I CHI...

CYFARCHION i Ysgol Glantaf ar gyrraedd llawn dwf gyda dosbarthiadau o'r flwyddyn gynta' hyd yr ail flwyddyn 6ed dosbarth.



"....yr ysgol yn tyfu."

LLONGYFARCHIADAU:

- i Marc Edwards,Elenid Owen a Sali Griffith Jones sy eisoes wedi ennill tystysgrifau lefel "A".
- i Garmon Emyr,Sion Phillips a Richard Erskine am gael eu gwadd i ymuno â thim rygbi yr ysgolion uwchradd, ac i'r holl ferched a bechgyn eraill sy'n aelodau o sgwadiau cynrychioladol eraill.
- i'r disgyblion a fu'n llwyddiannus yng nghystadleuthau Eisteddfod Llanbed, Rhiannon Lloyd Jones,Jeremy Williams,Ffion Jenkins, Julie Jones a Rhys Morris.
- i'r aelodau o'r 6ed dosbarth sy wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i furiau'r ysgol. Bu rhai yn tywys ymwelwyr ar deithiau 'Darganfod y Brifddinas' a drefnwyd gan Emyr Griffith i City Travel, rhai yn gweithio yn siop Taflen, rhai'n cymryd rhan mewn gemau busnes rhwng ysgolion ac eraill yn cynnal ffeiriau ac yn gwneud gwaith gwirfoddol.

POB HWYL:

- i'r disgyblion sy eisoes wedi gadael yr ysgol i fentro i fyd cyflogaeth. Yn y byd bregus hwnnw mae un ohonynt,Nicholas Squire o'r Bari,yn awr yn reolwr dan hyfforddiant gyda chwmni Mothercare - hynny yn sgil ei lwyddiant wrth gynnal mân-gwmni gynhyrchu teganau yn yr ysgol. Efallai y gwelwn ni fwy o ddarpar-fasnachwyr yn y dyfodol gan bod rhai disgyblion yn cael y cyfle eleni i astudio'r byd busnes ar gwrs wedi'i drefnu gan Fwrdd Datblygu Cymru.

AC APEL:

- mae'r 6ed dosbarth yn defnyddio stafell ddosbarth fel Uned ac mae nhw'n awyddus i'w gwella. Byddai gorchuddio'r cadeiriau'n gam ymlaen,a felly gwnawn apêl i ddarllenwyr Y Dinesydd; oes 'na "stretch covers" segur ar gael yn rhywle,tybed? Neu hyd yn oed gadair y gellid ei sbario i'r Uned? Fe'u derbynnir gyda llawer o ddiolch gan y dosbarth. Os gallwch helpu, cysylltwch os gwelwch yn dda â Mrs.Ann Saer yn yr ysgol.

# ...AC I CHI!

YN DDIWEDDAR, bron yn rhy ddiweddar, sylweddolwyd bod Cylch Meithrin Rhiwbeina yn 25 oed ar Hydref 30.

Ym mis Medi 1959 cynhaliwyd cyfarfod yn Rhiwbeina dan nawdd U.C.A.C. i drafod sefydlu Cylch Meithrin Cymraeg yn yr ardal. Cytunwyd i symud ymlaen ac agor un a threfnwyd ail gyfarfod i ethol swyddogion a threfnu dyddiad agor.

Agorodd y Cylch ar fore Gwener 30 Hydref 1959 mewn stafell yn y Neuadd Goffa leol gyda dros ugain o blant yn bresennol.



* Un o ddosbarthiadau cynta'r Cylch Meithrin.

Mae'r cylch wedi mynd o nerth i nerth ers y dyddiau cynnar hynny ac erbyn hyn mae'r Cylch ar agor bob bore o naw tan ddeuddeg ac yn cyfarfod yn Neuadd y Methodistiaid, Maes y Deri.

Cynhaliwyd parti penblwydd i blant presennol y cylch ar fore Mawrth, Hydref 30 a chynhaliwyd Noson Gymdeithasol gyda'r nos i bawb a fu'n gysylltiedig a'r Cylch yn ystod y cwarter canrif a aeth heibio.

---

CYFARFOD SEFYDLU'R PARCH EIFION POWELL YN WEINIDOG CAPEL MINNY ST.

ROEDD CAPEL Minny St. yn orlawn am ddau o'r gloch ddydd Sadwrn Medi 29 a'r diaconiaid yn brysur gludo cadeiriau ychwanegol ar gyfer yr hwyr-ddyfodiaid. Ganol pnawn cododd y gynulleidfa at ei thraed i ategu penderfyniad Minny St. i sefydlu'r Parch.Eifion Powell yn weinidog newydd arnynt. Cyn hynny cafwyd hanes yr alwad gan Mr.Iwan Jones a thalwyd teyrnged ganddo i'r cyn-weinidog, y diweddar Barch.D.T.Evans.

Ymhlith y gynulleidfa roedd cynrychiolwyr o Harrow a Wrecsam a'r capeli eraill y bu Mr.Powell gynt yn weinidog arnyn nhw. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchedigion Richard Jones a Gwilym ap Robert gyda phregeth gan y Parch.John Gwilym Jones. Cyflwynwyd y gweinidog newydd i'r eglwys gan Mr.Carey Jones a'r Parchedigion J.Arwyn Phillips a Pryderi Llwyd Jones - y tri yn rhagweld hiraeth ar ei ôl yn Wrecsam a phob un (yn ufudd i orchymyn y llywydd, y Parch.D. Noel Evans) yn cadw o fewn y terfynau amser a osodwyd arnyn nhw!

Felly hefyd y croesawyr o'r De - Mr.Llewelyn Walters ar ran y capel ac yna y Parchedigion Mair Griffiths a Geraint Tudur. I ddiweddu'r cyfarfod sefydlu atebodd Mr.Powell gan ddiolch am y croeso iddo ef a'i deulu a'r cyfle i wasanaethu ym Minny St. a gofyn am fendith Duw ar waith y Capel. Sylwodd hefyd bod cot ei siwt wedi glynu i'r set fawr yn ystod y gwasanaeth - gwelai yn hynny, meddai, argoel o ymlyniad hir i'r eglwys newydd!

Dymunwn ar ran holl ddarllenwyr Y Dinesydd groesawu'r dinasyddion newydd, Eifion a Rebecca Powell, a'u plant Elin a Pheredur.


TAFLEN

LLYFRAU, CARDIAU, PAPURAU, RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

# COLOFN SHÂN

WRTH ROI cipolwg ar fy nyddiadur dros y mis diwetha dyma sylweddoli pa mor amrywiol a llawn ydy bywyd.

Troi'r tudalennau a gofyn i mi fy hun - am be soniai'r mis yma? Cinio ffarwel Dr.Raymond Edwards yn y castell neithiwr a'r areithiau a'r cwmni difyr? Beth am y noson fawr honno yn agor stiwdios HTV yng Nghroes Cwrlwys? Neu beth am Gyngor yr Eisteddfod yn Abergwaun? Neu Bwyllgor Cymdeithas Cymry Ariannin yn Aberystwyth? Neu'r gwasanaeth cartrefol yng nghapel Derwen Deg bnawn Sul a phregeth afaelgar Aled Gwyn? Na mi af yn ôl dipyn.

Mi fum yn bwrw'r Sul ym Mhlas Gregynog ar gwrs preswyl Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Rwyf wedi mynychu'r rhan fwyaf o'r cyrsiau yma oddiar y cyntaf yn y Bari ugain mlynedd yn ôl, ond yn ddios eleni oedd y gorau a'r bywioca.

Gosodwyd safon eithriadol efo'r ddarlith gyntaf gan Hywel Teifi Edwards ar y testun, "Ein Halawon yn Oes Victoia". Dwyawr megis dau funud! Bethan Miles yn rhoi hanes y crwth, Dafydd Idris a Menna Thomas yn sôn yn ddifyr am Faledi Morgannwg ar lafar ac ar gan. Darlith swmpus gan John Edward Jones ar ddylanwad cerddoriaeth gwerin ar gerddoriaeth glasurol.

Ond uchafbwynt y cwrs i mi oedd y nos Sadwrn pan ddaeth criw o ddynion o Lanerfyl ac ail greu'r Plygain sydd yn hen draddodiad ym Maldwyn. Er mai Plygain gwneud oedd hi, fe lwyddwyd i greu awyrgylch hynod hynafol a defosiynol. Rhyfeddu ac ymfalchio dro ar ôl tro at gyfoeth ein traddodiadau - rhyw brofiadau fel hyn sy'n gwneud bywyd yn werthchweil.


PARTI NADOLIG
Y DINESYDD

Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbeina
8 Rhagfyr am 7.30

Dewch yn llu!

# NEWYNOG AM NEWID

TORTH O FARA



GAN FY MOD yn ysgrifennu'n aml am fwyd yn y golofn hon credaf mai priodol yw tynnu sylw y tro hwn at ymgyrch diweddaraf Oxfam, "Newynog am Newid".

Dywedodd Henry Kissinger ym 1974 na ddylai un plentyn fynd i'w wely a'i stumog yn wag ac na ddylai un teulu ofidio am eu bara at y diwrnod nesaf o fewn y degawd nesaf. Aeth degawd heibio ond heddiw mae 30 o bobl y byd yn marw pob munud o newyn neu afiechydon a achosir gan newyn.

Ar y llaw arall, yng ngwledydd y Farchnad Gyffredin ceir gwastraff ofnadwy - e.e. dinistrir 41 o flodfresych, 75 pwys o domatos, 438 o eirin gwlanog, 221 pwys o ellyg, 3,170 pwys o afalau, 1,350 o orennau, 1,640 o lemonau pob munud o'r dydd. 'Rydym yn gwybod hefyd am y mynyddoedd bwyd a geir yng ngwledydd y Gymuned. Mae hyn yn peri gofid mawr i mi. Heblaw am bolisiau amaethyddol nodir pedwar ffactor arall gan Oxfam sy'n achosi argyfwng newyn y byd (ac mae Prydain Fawr ynghiwm wrth pob un ohonynt) - sef dyled y byd, cymorth datblygu, masnach ac arfau. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain yng nghylchlythyr Hydref Oxfam.

Diddorol hefyd yw darllen pamffled gan Oxfam sy'n trafod dadleuon sy'n ymwneud â newyn yn ein byd. Ceisir profi mai myth mwy na dadl yw pob un o'r datganiadau a sonir amdanynt - dyma'r wyth myth\dadl (darllenwch y pamffled i gael ateb Oxfam i bob un ohonynt). 1.Nid oes digon o fwyd i bawb. 2.Mae gorboblogaeth yn y gwledydd tlawd. 3. Does dim digon o dir i dyfu bwyd. 4. Ni ellir tyfu bwyd mewn gwledydd lle mae sychdwr neu lifogydd. 5. Mae gennym fynyddoedd o fwyd felly gallwn anfon mwy o fwyd i'r rhai sy'n newynu. 6. Mae mewnforio bwyd o wledydd y Trydydd Byd i Brydain yn gymorth i'r gwledydd tlawd. Ond yn ôl Oxfan y ddau fyth mwyaf peryglus yw'r rhain: 7. Dydy'r broblem yn ddim i'w wneud â ni'n bersonol. 8. Ni allwn wneud dim i newid y sefyllfa.

Amcan ymgyrch Oxfam yw ceisio gwneud pobl fel ni yn fwy ymwybodol o'r sefyllfa a'r ffeithiau, ac i ddangos sut y gallwn ni fel unigolion helpu trwy ymgyrchu i amlygu problemau ac achosion newyn y byd ac i wasgu am newidiadau i'w datrys.

Beth am gefnogi'r ymgyrch drwy hysbysu eich cyd-weithwyr a'ch cyfeillion am achosion newyn a'n cyfrifoldeb fel cenedl i geisio eu gorchfygu, neu drwy help i godi arian at waith Oxfam, hyd yn oed trwy ymuno â'r Ympryd Cenedlaethol a drefnir fel rhan o'r ymgyrch ar 16, 17 ac 18 o Dachwedd? I'r rhai sydd eisiau'r ffordd hawdd allan, mi fydda'i i'n ymprydio a bydd angen pobl i'm cefnogi fel noddwyr!

Ceir rhagor o fanylion am ymgyrch "Newynog am Newid" o Siop a Swyddfa Oxfam yn Heol yr Eglwys Newydd.

# ESPAN-IA?

MEDDWL AM WYLIAU '85 eto? Ystyried mynd i Sbaen unwaith eto? Wel, beth am anghofio traethau Torremolinos a Majorca, a Galacia sydd mor debyg i Gymru gyda'i mynyddoedd gwyrdd a'i glaw di-baid. Anelwch at y canol, calon y wlad, a phrifddinas urddasol Sbaen, Madrid.

Syndod yw dod ar draws Madrid, prifddinas uchaf Ewrop, yng nghanol y mynyddoedd: i'r de mae'r Sierra de Toledo, wedi ei henwi ar ôl y ddinas enwog hwnnw a oedd mor bwysig yn ystod y Rhyfel Cartref, a lle treuliodd yr arlunedd El Greco lawer o'i fywyd; ac i'r gogledd mae'r Sierra de Guadarrama lle mae dinasyddion Madrid yn dianc i'w tai haf, neu i'r pistes i sgio yn y gaea'!

Mae Madrid yn ddinas hardd dros ben, ac fel unrhyw brifddinas yn Ewrop heddiw mae'n gymysgedd o'r hen a'r newydd - ond heb os, yr hen sy'n ennill y dydd. Nid y tyrrau hyll o goncrit mae dyn yn cofio amdanynt, ond yr hen adeiladau fel y Palas Brenhinol ac amgueddfa'r Prado. Ac ymysg yr adeiladau ceir nifer o barciau a sgwariau neu "plazas" i ymlacio neu fynd am dro ynddynt. Mae parc bendigedig y Retiro ymysg y goreuon yn Ewrop, gydag erwau o goed a blodau, a llyn anferth yn y canol lle mae dinasyddion Madrid, y Madrilenos, yn ymgynnull bob dydd Sul. Neu os am dipyn o fywyd ar y Sul, beth am dro bach i'r Rastro - marchnad agored hollol anghredadwy sy'n cau rhyw filltir sgwar o ganol y ddinas bob bore Sul, lle gallwch brynu bron unrhyw beth dan haul.

Gyda'r nos, y lle gorau yw'r ardal o amgylch y Plaza Mayor, prif plaza Madrid. Yn ystod y dydd mae'r plaza yn weddol heddychlon, ambell i sipsi yn gwerthu blodau efallai, cardotyn yma a thraw, a dynion busnes yn darllen El Pais mewn heddwch. Ond gyda'r nos prin y gallwch symud ymysg yr heidiau sy'n llenwi'r bariau a'r tai bwyta traddodiadol sydd o amgylch y plaza.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl hedfan i Fadrid o Gaerdydd, rhaid mynd o Gatwick. Ond i fod yn onest, y ffordd orau i gyrraedd Madrid yw mynd â'r car ar y llong i Santander a gyrru trwy ogledd y wlad - syndod arall i'r ymwelydd newydd i'r rhan yma o'r wlad. Ond stori arall yw honno....

Sian Parry-Jones

# WEDI BENNI!

NID RHYFEDD i gadeirydd y Pwyllgor Llen, druan, deimlo ei fod mewn arswydus swydd wrth weld y rhestr aelodau a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr prif sefydliadau'r genedl, llenorion ac athrawon disglair. Ond yn fuan daeth i sylweddoli, er waetha'i ofnau, bod y pwyllgor yn cydweithio'n hwylus a rhwydd gyda beirniadaeth adeiladol yn ogystal ag ambell hanesyn amherthnasol, ond diddorol, yn cyfranu at ysbryd cyfeillgar y cyfarfodydd.

Diolchaf i bob un o'r aelodau ond hyderaf y bydd pawb yn barod i mi enwi un o'n plith, sef Myra Jenkins, yr ysgrifenyddes am ei heffeithlonrwydd diflino.

Cwblhawyd y gwaith mewn byr amser. Yn wir, rydym yn go sicr mai ni oedd y pwyllgor cyntaf i gyflawni'r dasg a roddwyd, ond gyda'n gostyngeiddrwydd arferol, ni wnaethom gyfeiro at hynny hyd y awr. Deilliodd ysbrydoliaeth y pwyllgor yn rhannol o'r ffaith mai yn nhai eim gilydd yr oeddem yn cwrdd. Daeth hwn yn llawer sicrach o gyfforddusrwydd cadeiriau esmwyth gydag arogl coffi a chetyn y bardd yn hofran yn yr awyr nag o galedwch cadeiriau simsan y Ganolfan gydag arogl .....

Amheuthun ar ôl sesiwn yn y Pwyllgor Gwaith 'ar lith ariannol sych' oedd encilio i'r Pwyllgor llenyddiath a chael y cyfle a'r hawl i ddiarddel y materol, petai ond dros dro. Mae'n bwysig sicrhau na wnaiff problemau cyllidol, er mor ormesol ydynt, beri ini anghofio beth yw gwir nod ac amcanion yr Eisteddfod.


Rhaid i bob pwyllgor weithredu o fewn ffiniau go bendant a osodir gan yr Urdd. Prin yw'r cyfle felly i fod yn feiddgar o wreiddiol wrth baratoi testunau. Cawsom ganiatad i gynnwys un gystadleuaeth ychwanegol, sef casgliad o gerddi dwli gwreiddiol. (Roedd dod i wybod am arbenigedd un aelod yn y maes hwn yn agoriad llygaid, a chlustiau!).

Rhoesom ystyriaeth ddyladwy i awgrym Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith y dylid talu sylw i'r ffaith fod 1985 yn Flwyddyn Ieuenctid a gwnaed ymgais i roi naws leol i rai cystadleuthau ac nid anghofiwyd am Byrti chwaith. Gwnaethom barchu'r cyfarwyddwyd a roed ynglŷn â dewis beirniaid, sef y dylid mynd y tu allan i ffiniau'r sir, a dyna pam nad yw enwau rhai ohonoch sy'n darllen yr adroddiad hwn ddim ar ein rhestr beirniaid. Na thralloder ohonoch; y rheol,ac nid y ni, oedd yn eich alltudio.

Nid yw ond yn deg nodi nad y ni sy'n gyfrifol am y gwallau treiglo sydd wedi ymddangos yn y Rhestr Testunau terfynol.

Mae'n prif dsag ni fel pwyllgor wedi'i gwblhau; yn awr, ni allwn ond gobeithio y bydd y testunau a ddewisom yn apelio, ac na fydd un beirniad yn beio'r testun os bydd cystadleuaeth yn siomedig.

# CYSTADLEUAETH



HEB ENNILL AR Y BINGO ETO? Eich portffolio yn wag? Dyma'ch cyfle i ennill un o wobrwyon fythgofiadwy'r Dinesydd, a'r tro hyn mae'r dasg a osodir hyd yn oed yn haws! Llun o beth, ym mhle ydy hwn? Atebion yn y post i Rhodri Gwyn Jones, 4 Maes y Sarn, Pentyrch, Caerdydd, a hynny erbyn Tachwedd 30. Cafwyd ateb o'r diwedd i'r gystadleuaeth gyntaf. Yn anffodus, er i Mrs.Elaine Morgan, Trelai, adnabod yr hen lew ar furiau Tŷ Hebrwng Cwrt y Rhath, daeth yr ateb yn rhy hwyr i ennill y wobr.


# SO FA, SO GWD

EISOES BU'R cyd-bwyllgor cyngherddau wrthi'n ddiwyd yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau fin nos yr Eisteddfod.

Buom yn hynod ffodus i sicrhau bod Neuadd Dewi Sant ar gael inni. Mae'n ddyletswydd arnom ninnau felly i gyflwyno patrwm o gyngherddau fydd yn adlewyrchiad o'r talent sydd yma yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Ein gobaith yn awr yw gweld y neuadd yn llawn bob nos gan brofi i'r siniciaid fod Cymry Cymraeg y cylch yn barod i gefnogi wythnos o weithgareddau Cymraeg.

Nos Fawrth Mai 28
CYNGERDD LLEISIOL AC OFFERYNNOL.
- o dan faner pwyllgor addysg De Morgannwg. Cynllunydd y noson yw'r trefnydd cerdd, Mrs.Helena Braithwaite. Comisiynwyd gwaith gan y cyfansoddwr Mervyn Burch - darn ar gyfer cerddorfa ieuenctid, cor ieuenctid a band pres ieuenctid y sir.
Mae Marks & Spencer yn noddi'r cyngerdd hwn.

Nos fercher Mai 29
PASIANT Y PLANT
Bu wyth ysgol gynradd, o dan gadeiryddiaeth Mr.Tom Evans, yn cyfarfod yn rheolaidd i baratoi'r pasiant: thema'r noson yw BYRTI BWS. Yn ystod y noson cewch weld cynrychiolaeth o ysgolion Y Wern, Melin Gruffydd, Bro Eirwg, Coed-y-Gof, Marlborough, Penarth, St. Baruc ac Iolo Morgannwg.




Nos Iau Mai 29
OPERA ROC - MERCH Y BLODAU
Gwaitha gomisiynwyd yn arbennig gan y cyd-bwyllgor cyngherddau. Yr awdur, Emyr Edwards, yw sylfaenydd a chyfarwyddwr Cwmni Theatr Yr Urdd. Addasiad o chwedl Blodeuwedd yw'r opera roc. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Dulais Rhys a threfnwyd y sgôr ar gyfer y band gan Euros Rhys Evans.

Nos Wener Mai 31
CYNGERDD RHYNGWLADOL
Mai cynlluniau ar y gweill i gyflwyno noson gan artistiaid rhyngwladol ifainc a grwpiau ethnig lliwgar y brifddinas.

Nos Sadwrn Mehefin 1
Y MESEIA
Fel rhan o ddathliadau tri chan mlwyddiant geni Handel, penderfynwyd mai priodol fyddai cyflwyno'r gwaith poblogaidd hwn. Ffurfir cor arbennig ar gyfer yr achlysur - Côr Unedig Caerdydd - sef cyfuniad o Gôr Ysgol Gyfun Glantaf, Côr philharmonic Caerdydd, rhieni ac athrawon Glantaf a Chôr Canolfan yr Urdd Caerdydd. Yn ogystal â'r corau hyn mae croeso i gantorion eraill Caerdydd a'r cylch ymuno yn y Côr Unedig arbennig hwn.
Hyfforddir ar arweinir y Côr Unedig gan Alun Guy, Pennaeth Adran Gerdd Glantaf ac arweinydd Cor Philharmonic Caerdydd. Bydd ymarferion wythnosol yn dechrau ar nos Fawrth 22 Ionawr 1985, yn Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Heol Corbett am 7.30. Os am wybodaeth pellach cysylltwch ag Alun Guy - 6233704.
Cerddorfa Ysgol Glantaf gyda chymorth athrawon peripatetig y Sir fydd yn cyfeilio, gyda Phillip Laugharne, organydd Eglwys Dewi Sant, wrth yr organ.
Myfyrwyr ifainc sydd a'u bryd ar fod yn gantorion proffesiynnol fydd yn canu'r unawdau. Mae'r pedwar ohonynt yn astudio yng ngholegau cerdd Llundain ar vhyn o bryd.

Nos Sul Mehefin 2
CYMNFA GANU
Côr Unedig Caerdydd yn ledio'r canu o dan arweiniad Alun Guy; yr organydd fydd Phillip Laugharne.
Mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd cynrhychiolaeth o ysgolion cynradd, uwchradd ac adrannau Urdd Caerdydd a'r cylch yn y gymanfa yn ogystal a holl Gymry Cymraeg y brifddinas, wrth gwrs.
Bydd cerddorfa Ysgol Glantaf yn cyfeilio'r emynau.
Dylai'r Gymanfa fod yn goron ar wythnos arbennig iawn yn hanes yr Urdd ym 1985 yma ym mhrifddinas Cymru.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367

# COFIO STEDDFOD '65

CYNHALIWYD CYNGERDD cyhoeddi'r Eisteddfod yn yr hen Neuadd Cory gyferbyn a gorsaf Heol y Frenhines. Bu'r cyngerdd yn llwyddiant ysgubol, y neuadd yn orlawn (tocynnau oedolion yn dri swllt, a swllt a chwech i blant) a Chôr Pendyrus a Pharti Menlli a'r unawdwyr yn cael cymeradwyaeth fawr. Fe gafodd y grwp Meillion gymeradwyaeth fyddarol hefyd er nad oedden nhw'n adnabyddus - yn wir dyna eu hymddangosiad cyntaf.

Bore drannoeth roedd y Western Mail yn uchel ei glod: "Welsh Pop Singers Steal Show" ac, mewn llythyr at y papur, fe ddywedodd un o'r gynulleidfa, David Evans o Nantgarw, "...Meillion were the stars of the show. 'Dominique' was fabulous. So come on you Welsh composers what about an original composition and sound? With the right backing the group could go places."

Ffurfiwyd y grŵp gan Beti Wyn Jones yn unswydd ar gyfer y cyngerdd, ac fel mae'n dweud heddiw, "Mae pethe yn y byd pop wedi newid dipyn ers y dyddiau cynnar hynny."

Roedd chwech o ferched ifainc yn y grŵp,pump ohonyn nhw wedi bod gyda'i gilydd ym Mryntaf a'r llall, Rhiannon Roberts wedi dod o Lundain i fyw yng Nghaerdydd.



Dyma lun o'r grŵp wedi ei dynnu yng nghartref Beti Wyn a'i gŵr, Richard, yn Llanishen. Fedrwch chi eu henwi? Beth yw eu hanes nhw heddiw?

Rhowch wybod inni.

# COLOFN YR HARPWN

"NID MYNYCH Y cyhoeddir llyfr newydd, yn enwedig barddoniaeth, na bydd dau fath o ddarllenwyr yn ei ddisgwyl o'r wasg; sef rhai er mwyn cael rhyw gyfran o addysg a diwennydd ynddo; ac eraill er mwyn cael cyfle i'w farnu a phigo ei feiau".

Ysgrifennwyd y geiriau uchod 157 o flynyddoedd yn ôl yn rhagymadrodd Robert Davies o Nantyglyn i'w gyfrol "Diliau Barddas". Ychydig sydd wedi newid o ran agwedd at gyfrolau newydd. Yr un mor sur yw mêl diliau Barddas. Mae barddoniaeth i'r Cymry fel ffwtbôl i'r Saeson: cyfle i gael cega'n gyhoeddus.

Mae dawn anghymarol ein beirdd i greu ffrau wedi dod i'r amlwg eto yn ymosodiadau Gerwyn Williams ac Alan Llwyd ar ei gilydd yng ngholofnau cylch-gronnau diweddar.

Fel mewn dadleuon ynghylch pêl-droed, mae'r skinheads barddonol hyn yn hyrddio geiriau at ei gilydd, gan osgoi yn aml aros ac ystyried cyn gwneud. Nid oes ymgais i fynd ati i ddiffinio termau nac i ddadansoddi dadleuon yn fanwl. Defnyddir termau fel "llenyddiaeth", "traddodiad" a "meistri'r gorffennol" fel pe bai pawb yn gwybod yn reddfol beth yw eu hystyron.

Mae'r agwedd yma ar ymgecru ymysg beirdd a beirniaid yng Nghymru yn awgrymu gem ddifyr ar gyfer partion. Llenwch y bylchau yn y darn canlynol gydag unrhyw eiriau o'r darn sy'n dilyn:

"Ni ellir _______ _______ yn iawn heb yn gyntaf ystyried dylanwad _____ ar _____. Nid yw _______ o'r iawn ryw yn gallu _______ heb _______ ein _______. Serch hyn mae _______ yn mynnu _______ heb hyd yn oed gwneud cymaint â _______ cyn _______ am _______. Pa ryfedd felly nad yw _________ yn poeni _______?"

I LENWI'R BYLCHAU:
Traddodiad, ystyried, deall, darllen, ysgrifennu, llenyddiaeth, meistri'r gorffennol, Derec Llwyd Morgan, canu caeth, rhoi pin ar bapur, beirdd ifainc heddiw, Alan Llwyd, cyan soddiadau arobryn, y bom niwcliar, beirniadu, beirniadaeth, beirniaid, llefaru ag awdurdod, safon, awen, Bedwyr a finnau ........
Mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd.

*************************

Ffown rhag y byd ffantasi ymgecrus hwn i realiti bywyd fel y'i gwelir drwy sbectol dywyll bardd ifanc arall sydd newydd ymgartrefu yng Nghaerdydd. Bydd Guto Dafis efallai'n fwy hysbys i'r rhai ohonoch sy'n gwrando ar raglen "Gwerin" Radio Cymru fel canwr gwerin. Y mae hefyd yn sgwennu cerddi a dyma un enghraifft o'i waith:

Ni'n dod mla'n yn rhagorol
Yn gorfforol.
Ond beth 'ti'n teimlo
Ac yn meddwl
Sai'n gw'bod
O gwbwl.
'Na'r trwbwl.

# Y SILFF LYFRAU

Dewi Eirug Davies: DIWINYDDIAETH YNG NGHYMRU 1927-1977. Gwasg Gomer £10.50.

RHENNIR Y LLYFR yn saith pennod ddisgrifiadol sy'n amlinellu ysgrifennu diwinyddol y cyfnod o dan y penawdau: Yr Hen a'r Newydd, Person Crist a Grym yr Ysbryd Glan, Gair Duw, Natur Eglwys, Natur Dyn, Y Cristion a'r Gymdeithas, Y Gobaith Cristionogol.

Ysgrifenna'n eglur ac yn drefnus gan ddyfynnu o gylch-gronnau yn ogystal ag o lyfrau. darllenodd yn helaeth gan ddidoli'n ofalus a threfnu ei fater yn gymen. Pwysleisia natur adleisiol diwinyddiaeth yng Nghymru, gyda'r diwinyddion yn cael eu dylanwadu gan syniadau a mudiadau diwinyddol y cyfandir yn hytrcah na'u bod yn cynhyrchu diwinyddiaeth frodorol a chreadigol.

Dengys Hefyd y gwrthdynnu a fu rhwng y ddiwinyddiaeth geidwadol a'r un ryddfrydol yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn wir, mae hi'n amheuthun cael disgrifiadau cytbwys o elfennau'r ddau bwyslais rhwng yr un par o gloriau. Yn sicr, dyma lyfr na all neb sy'n ymddiddori yn niwinyddiaeth Cymru yn y ganrif hon fforddio a bod hebddi.

J.Eric Jones (Gol.) DYN BACH O'R WLAD (Cyfrol Deyrnged D.Jacob Davies.) Gwasg Ty ar y Graig £3.00.

Disgrifir Jacob Davies fel hyn: "Fe gofiwn amdano fel bardd, storiwr, golygydd, pregethwr, emynydd, arweinydd eisteddfod a chyngerdd, darlledwr, ffrind i'r gwan, siaradwr rali, beirniaid, gwleidydd a chynhaliwr popeth Cymraeg a Chymreig."

Diddorol yw darllen am waith Jacob Davies ar ran y Pensiynwyr a'r ffaith iddo gael cynnig bod yn olygydd papur newydd ac yn aelod seneddol.

Mae esgyll campus englyn Tilsli yn crynhoi'r cyfan yn effeithiol gofiadwy:

"Llafur oes a roes i'r Iôn,
Diddanwch i'w gyd-ddynion."

W.EIFION POWELL.

Ithel Davies: BWRLWM BYW, Gwasg Gomer £4.50.

Mae'r teitl yn un addas iawn i'r gyfrol hon oherwydd ynddi fe geir bwrlwm atgofion hynafgwr, ifanc ei ysbryd a huawdl. Efallai fod tuedd i ail-adrodd weithiau ond brycheuyn bach yw hynny o gofio am gyfoeth yr atgofion am gymdeithas werinol ddiwylliedig a'r sylwadau crafog wrth drafod addysg, gwleidyddiaeth a chrefydd.

REBECCA POWELL.


holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael

**CLWB IFOR BACH**
11 HEOL WOMANBY, CAERDYDD
(Rhwng Blacks a Dukes, cyferbyn â'r Castell)
Ffôn: (0222) 32199

**CLWB GEMAU BWRDD**
(popeth drwy'r Gymraeg)
BOB NOS FAWRTH
7.30 - 10.30
Croeso i bawb - aelodau ac 'an'-aelodau
*plant yng nghwmni rhiant/rhieni.*
Gwyddbwyll, drafftiau, Cliwdo, Monopoli, 101, dominos, sgrabl, cardiau, majong, ac ati.

# IFOR BACH YN SIARAD POLITICS

CYNHALIWYD CYFARFOD agoriadol Cymdeithas Wleidyddol Clwb Ifor Bach ar Hydref 4, pan siaradodd Dafydd Elis Thomas A.S. ar y testun amwys "A ellir ehangu nifer y Cymry a hybu diwylliant y Cymry di-Gymraeg?"

Thema sylfaenol Dafydd Elis oedd ei ymdeimlad bod hyder newydd yn crynhoi yng Nghymru. Bod dirywiad yr iaith Gymraeg wedi arafu os nad peidio; bod nifer o sefydliadau'n bod bellach i warchod buddiannau'r iaith, ac, yn bwysicach, bod y Cymry eu hunain, yn Gymraeg a di-Gymraeg, yn dechrau sianelu'r hyder yma i weithredu cymdeithasol a gwleidyddol.

Yr enghraifft orau o hyn wrth gwrs, a'r enghraifft y dychwelai DET ato droeon, oedd brwydr y glowyr a'u canfyddiad bod yn y cymunedau lleol rym ac ewyllys a allai eu cynnal ar wahan, ac yn annibynnol ar lywodraeth ganolog. Dyma'r math o annibyniaeth gymunedol y gwelai DET y Cymry'n anelu ato bellach yn hytrach nag annibyniaeth sefydliadol, draddodiadol Plaid Cymru sydd â'i sefydliadau wedi'u patrymu ar Whitehall a San Steffan.

Fel rhan o'r newid cyfeiriad hwn, rhaid oedd derbyn rhai cynseiliau:

* Rhaid carthu'r meddwl o'r holl ragdybiaethau Cymreig "traddodiadol", cynnyrch cenedlaetholdeb Saunders Lewis a'r rhyddfrydiaeth anghydffurfiol. Gwell ceisio patrymau yn hanes diweddar y broydd diwydiannol Cymreig, a'u syndicaliaeth sosialaidd.
* Rhaid derbyn mai cenedl aml-ieithog, aml-ddiwylliant yw Cymru a bod hynny'n arwydd o gryfder yn hytrach na gwendid.
* Rhaid paratoi at ddadfeiliad anorfod y gyfundrefn Brydeinig yn y dyfodol agos, a chreu yn ein cymunedau y parodrwydd i sefydlu ein cynulliadau annibynnol ein hunain.

Y neges sylfaenol oedd ei bod yn bryd i Blaid Cymru newid o fod yn honni gweithredu ar ran pobl Cymru, drwy ennill consesiynau gan y llywodraeth, i fod yn blaid a ymatebai i anghenion gwirioneddol y bobl, fel yn achos streic y glowyr. Rhaid oedd i unrhyw newid cymdeithasol godi o blith y bobl. Ni ellid ei osod arnynt oddi uchod.

Yn dilyn y sgwrs cafwyd trafodaeth fywiog a buasai pawb wedi aros tan berfeddion nos petai Emyr Lewis, cadeirydd y cyfarfod, wedi caniatau. O'r diwedd yr ydym yn dechrau edrych arnom ein hunain, ein gwendidau a'n cryfderau, o ddifrif, ac o'r cyfan efallai y daw dadansoddiad trylwyrach a ffordd ymlaen. Mae cyfraniad Dafydd Elis Thomas i'r cwestiynnu hwn yn ganolog.

Diolch i drefnyddion y Gymdeithas Wleidyddol am noson a ysgogodd drafod a dadlau; diolch i Dafydd Elis am ei afiaith a'i arabedd arferol, a diolch i'r nifer sylweddol o bobl a ddaeth yno i gyfranuu i'r drafodaeth.

Cynhelir cyfarfod arall o'r gymdeithas am 8.00, nos Iau, 8 Tachwedd, pryd y bydd Emrys Roberts, Ysgrifennydd Cyngor Iechyd Cymuned Gwent, yn trafod "Y Gwasanaeth Iechyd a Phreifateiddio".

Fe'ch gwelaf yno ....

Iwan Llwyd.


## GWAITH

SWYDD TREFNYDD ADLONIANT a gweithgareddau Cymraeg, ynghyd â pheth gwaith bar a stiward. Rhoir hyfforddiant. Telerau a chyflog i'w trafod. Manylion pellach oddiwrth: Yr Ysgrifennydd, CLWB IFOR BACH, 11 Heol Womanby, Caerdydd, CF1 2BR, Ffôn: 32199.

## GWERSI OFFERYNNAU PRES

gan athrawes gymwys, pob safon, unrhyw offeryn pres + miwsig safon 'O' ac 'A'.
Ffôn: Caerdydd 497414.

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

## LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*


# PARABL PARRI

MI ORFFENAIS I fy llith y mis diwethaf drwy sôn fod tymor iau oen a stwnsh rwdan ar y gorwel - wel mae wedi cyrraedd a'r dail fu'n crino mor hardd wedi diflannu yn y stormydd gafwyd ddiwedd Hydref, ac wedi mynd o flaen brwsh dyn y lôn.

Dyma hi rwan yn gyfnod edrych 'mlan at y Nadolig a sawl achlysur personol cyn hynny - Yr Wŷl Gerdd Dant yng Nghorwen ar 10 Tachwedd a Sioe'r Smithfield yn Llunden!

Ydyn mae'r coed yn noeth, ond sylwch ar y cloddiau - mae nhw'n drwm gan aeron - egroes (rose-hip), eirin tagu (eirin duon bach neu sloe), eirin ysgaw ac ati - rwy'n gobeithio y ca'i gyfle yn ystod y mis nesa' ma i gywain i ysguboriau neu gasglu fel wiwer i'w chwpwrdd - jest digon i wneud potel neu ddwy o siryp egroes sy'n dda at anwyd neu beswch, eirin duon bach i wneud sloe gin sy'n codi calon a beth am drio'r ddiod eirin ysgaw sy'n gynhesol iawn ar ddiwrnod o aeaf.

1. Llond jwg o eirin ysgaw (rhyw 2 bwys o'u pwyso ar y brigyn.
2. Dau fodfedd o cinnamon.
3. Un darn o sinsir neu llond llwy de o'r powdwr.
4. Peth Nutmeg.
5. Saith clôf.
6. Hanner peint o ddŵr
7. Deuddeg owns o fêl i bob peint o hylif.
8. Cwarter peint o frandi.

A. Tynnwch yr aeron o'r coesau (mae fforc yn handi iawn wrth wneud hyn). Rhowch yr aeron mewn sosban go fawr ynghyd â'r sbeisus a'r dŵr. Dowch a'r cyfan i'r berw a'i fud ferwi am tua 20 munud pan ddylai'r sosban fod yn llawn sudd.

B. Rhowch lian neu fwslin dros bowlen go fawr ac arllwyswch yr hylif i'r lliain. Cydiwch yng nghorneli'r lliain neu fwslin a gwasgwch y sudd i gyd ohono.

C. Mesurwch yr hylif a'i roi drachefn mewn sosban lân - dowch ag o i'r berw ac ychwanegwch y mêl - trowch nes bydd y mêl wedi toddi a berwch y siryp am ryw 10 munud.

CH. Gadewch i'r gymysgedd oeri peth - yna ychwanegwch y brandi a'i droi'n dda. Tywalltwch i boteli glan tra'n gynnes - rhoi ar bob un neu gorcyn.

Mae cloddiau caeau Llandaf, Pontcanna, Mynydd Caerffili a'r Wenallt yn aros amdanoch chi. Tybed pwy fydd yna gynta - chi neu'r adar! Hwyl.

# AR I FYNY

FEL YR ADDEWAIS yn y rhifyn olaf, canu clodydd yr Ail Dim ydi'r bwriad y tro hwn, a rhag ofn nad ydych yn rhy sicr, o dan faner Aelwyd yr Urdd y dewch o hyd iddynt ar dualennau cefn y South Wales Echo, ac yn Adran Pedwar o gynghrair y "Combination" y maent yn chwarae.

Ie, canu clodydd ddwedais i, a hynny yn beth tra anarferol yn eu hanes trwy'r blynyddoedd. Yn wir, braidd nad testun gwawd ydi'r tim wedi bod o'r mwyafrif o'r timau eraill yn eu cynghrair, a dau bwynt weddol sicr oedd hi yn eu tyb hwy y naill Sadwrn ar ôl y llall. Crafu i gael unarddeg yn aml iawn, a chrafu hyd yn oed yn fwy taer na thaer fu hi i ddal eu safle yn yr adran bresennol ar ddiwedd y tymor diwethaf a'r un blaenorol.

Tydi hynny ddim yn farn neu'n feirniadaeth ar unrhyun oedd yn chwarae bryd hynny. Yn wir talu teyrnged ddylid ei wneud i'w ffyddlondeb a'u hawch a'u parodrwydd i dreulio pnawniau Sadwrn dirifedi o Fedi hyd Ebrill yn cicio yn enw Cymry Caerdydd a dangos i'r llu "Keerdiffians" fod hi hyd yn oed yn bosibl chwarae peldreod trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifddinas.

Wel, canu clodydd ddywedais i - beth sydd yn wahanol eleni tybed? Pwy well i egluro'r sefyllfa bresennol i ni na chapten yr Ail Dim, un sydd gyda llaw wedi ei eni a'i fagu ar aelwyd Gymraeg yn Llundain, ond a gafodd addysg prifysgol ym Mangor ac sydd yn siarad Cymraeg mor naturiol â phobl Llŷn ac Eifionydd. "Twics" ydi o i'w ffrindiau, a hynny am ei fod wedi'i godi yn y rhan honno o Lundain.

DINESYDD: Rhowch fraslun o'r tymor hyd yma.
TWICS: Ar ddiwedd mis Hydref eleni, mae'r tim yn sefyll mewn safle anrhydeddus yn y gynghrair ac yn bedwerydd o'r brig wedi chwarae chwech, ennill pedair, un yn gyfartal, a cholli un. Yn ogystal chwaraewyd dwy gêm gwpan, colli'r ddwy fu'r hanes, ond mae'n deg dweud mai gwrthwynebwyr o'r Adran "Premier" a gafwyd yn un gêm, a toedd colli o bedair gôl i ddim ddim yn drasiedi o bell ffordd. Mae cael naw pwynt cyn diwedd Hydref yn rhoi boddhad mawr imi ac yn sicr yn rhywbeth na chafwyd cofnod ohono erioed o'r blaen yn hanes y tim.
DIN: Beth sydd i gyfrif am y newid yma yn eich perfformiadau?
TWICS: Mae'n wir dweud fod yna welliant garw wedi diwydd ddiwedd y tymor diwethaf, digon i sicrhau aros yn yr adran o wahaniaeth goliau a hynny yn gyson olaf. Eleni, mae'r tim wedi mynd o nerth i nerth ac adeiladu ar y gwytnwch a fagwyd trwy'r blynyddoedd. Mae na rhai chwaraewyr newydd wedi ymuno â ni, ambell i un arall wedi dychwelyd i Gaerdydd wedi treulio cyfnod yn gweithio i ffwrdd, a rhagor o fechgyn ar gael sy'n dymuno chwarae i'r clwb.
DIN: Ydi dyrchafiad y tim cyntaf wedi effeithio ar chwarae'r tim?
TWICS: Mae dyrchafiad y tim cyntaf wedi bod yn bwysig iawn i'r Clwb yn gyffredinol, ac yn sicr o fod yn llesol i bawb. Mae yna ddiddordeb cynyddol gan chwaraewyr i ymuno â'r Clwb ac eleni yn anad un flwyddyn mae na gystadlu cyson am le yn tim, ac mae cystadleuaeth bob amser yn iach.

DIN: I ennill gemau mae'n rhaid cael rhywun i roi'r bêl yn y rhwyd!
TWICS: Mae Martin Hopwood yn ol fel mellten o gwmpas y maes, a "Bags" yn tarannu tu ôl iddo hefo'i ddannedd gosod newydd. Tair gôl i Martin ar Sadwrn olaf Hydref, a Richard Parsons, yr is-gapten yn sgorio'r llall. Mae'r ddau yma yn rhwydo'n gyson, a Rich yn amcanu a sgorio mwy na'i ddeunaw gôl y llynnedd.
DIN: Mae na ambell i hen stejar yn chwarae hefyd yn 'toes?
TWICS: Na, dim ond Cen sydd ar ôl erbyn hyn, be neuthoch chi ei alw fo? (Dim ond edrych yn hen mae Rob Sanger!)
DIN: A beth ydy'r rhagolygon am weddill y tymor?
TWICS: Dal i chwarae yn gyson-dda, a phwywyr na fydd 'na ddyrchafiad yn dod i'n rhan ninnau hefyd ym mis Ebrill.

Dyma'r canlyniadau diwethaf:
Medi 29:
1af v Ninian Spurs 2-2
(Gareth & Elwyn)
Hydref 6:
1af v Tongwynlais 0-1
Ail v Avenue Hotspur 2-1
(Martin & Rich.P)
Hydref 13:
1af v Tongwynlais (cwpan) 2-4
(Eynon 2)
Ail v Anthony's Ely (cwpan) 0-4
Hydref 20:
1af v Roath Labour 1-0
(Rhodri)
Ail v Tremorfa (cwpan) 0-3
Hydref 27:
1af v Cardiff Cosmos 3-1
(Gareth, Rhodri 2)
Ail v Dinas Powys 4-3
(Martin 3, Rich.P)

Cwestiwn i gloi - pryd mae Cerith am ddechrau sgorio?

# ODL


YN EISIAU: Yr Odliadur gan Roy Stephens - Ffonier 612045.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Dim y mis hawdda yn y byd, ond mae lwc o'ch ochr serch hynny. Byddwch yn newid trywydd tua diwedd Tachwedd, ond thâl hi ddim i freuddwydio gormod.
TAURUS: Mis ffrwythlon a chithe'n llawn o syniadau creadigol. Ond tua diwedd y mis byddwch yn cilio i'ch cragen i ymadnewyddu ar gyfer y gaeaf. Sefyllfa ariannol iach iawn.
GEMINI: Cyfnod prysur iawn, ond byddwch wrth eich bodd. Rhaid osgoi cweryla, gyda pherthnasau'n arbennig, a chloncan hefyd.
CANCER: Mis prysur a chreadigol iawn. Bydd llawer o'ch syniadau yn dwyn ffrwyth nawr. Cyfnod ardderchog i'r rhai sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain.
LEO: Mae ffawd o'ch ochr chi'r mis yma beth bynnag y gwnewch. Gochelwch rhag bod yn rhy hyderus a cholli'r cyfan. Efallai bydd problemau yn y cartref.
VIRGO: Cyfnod o dyfiant ac ehestyn allan. Mi fyddwch yn brysur wrthi'n harddu'ch cartref hefyd. Gall perthnasau fod yn dipyn o fwrn.
LIRBRA: Efallai y byddwch yn newid eich meddwl ynglŷn â sefyllfa bwysig yn eich bywyd. Sefyllfa ariannol wych - ond peidiwch gor-wario, rhag ofn! Efallai daw cyfle annisgwyl i deithio tramor.
SCORPIO: Mi fydd eich sefyllfa ariannol yn llawer gwell. Ymgynghorwch a'r arbenigwyr os bydd unrhyw broblemau cyfreithiol gennych. Byddwch yn teimlo'n rhamantus iawn.
SAGITTARIUS: Cyfnod prysur ofnadwy, pan fydd pob peth yn debygol o ddigwydd. Byddwch yn teimlo'n aflonydd iawn. Cyfnod da i drin a thrafod eich gobeithion.
CAPRICORN: Amser i gymryd yr awenau a mynnu'ch ffordd eich hun. Ar y cyfan mi fydd eraill yn fodlon cydweithredu. Daw eraill â'u poenau a'u cwynion atoch.
AQUARIUS: Mis braf i gymdeithasu a gweld hen gyfeillion; fe wireddir rhai o'ch dymuniadau hefyd. Beth bynnag wnewch chi'r mis yma peidiwch â chymryd siawns.
PISCES: Cyfnod lwcus yn y gwaith, ond efallai bydd gormod ohono. Cadwch lygad barcud ar y ceiniogau. Bydd pennod newydd yn agor yn eich bywyd nawr.

# CROESAIR Y DINESYDD
## gan Ap Lewsyn



AR DRAWS

1. Mae'n agor y parsel. (6)
4. Sgipiwr cyflym wrth ddarllen? (8)
10. Mwy na phedwar yn y bar sy'n fiwsig iddynt. (9)
11. Marc ar ei ffrog sy'n peri trafferth i Nesta. (5)
12. Blas siarp sydd ar ôl y lach droellog ar adeg arbennig. (7)
13. Fe dyfa eich anhwylder aflonydd. (7)
14. Cadwyn ar ferch sydd yn atalfa, er wylo ohoni. (5)
15. Ffrwyth bach coch a charreg yn ei ganol. (8)
18. Efallai tyf addysg allan o hwn. (8)
20. Does ond angen punt ar yr eneth (5)
23. Y tren lan yn llosgi ar ôl cael damwain, - nid felly y tren lawr. (7)
25. Geiriau o enau plant bychain. (7)
26. Fflat i'r cerddor. (5)
27. Llawer o fynd a dod ar y môr. (4,1,4)
28. Mae'n rhoi ei groes i lawr.(6)

I LAWR

1. Dant a gaf yn dod yn rhydd wrth imi adrodd. (8)
2. Rhodder ystyriaeth fanwl wrth feirniadu. (7)
3. Mae'n mynd ar ei lw ar ôl pum cant sy'n oedi i weld ei fod yn tynnu i lawr. (9)
5. Pethau sy'n dod i'r golau am y waith gyntaf. (14)
6. Tlysni sy'n gadael Gogledd Lloegr ac yn datblygu'n iach a chryf. (5)
7. Gwegil maes o elynion yn cylchynu'r castell. (7)
8. Mae'n ddyn od i gyfleu arbenigrwydd yr un dim. (6)
9. Trefn achubol i gadw'r uchaf o'r tân! (9,5)
16. Cyhuddiad yn y llys a threial N.Y.E. ar gam. (9)
17. Rhai sy'n dysgub. (8)
19. Mae'r aelod am gael ei sedd e'n ôl wedi'i thrwsio. (7)
21. Heb wisgo dim! Dyna beth yw byw yn rhad! (7)
22. Byddid yn arfer ei sicrhau. (6)
24. Diwel dros y lle i gyd wrth ddannod. (5)

---

DATRYSIAD RHIF 46 (Hydref)

Ar draws:
1. DAL CANNWYLL; 9. DYALL;
10. CANFYDDADWY;11. BODDRAN;
12. GOGYHYD; 15. CASINEB;
16. DIDDAU; 17. YMRO; 18. ECHNI;
19. DALFA; 21. GORYNYS;
22. AR-Y-CLWT; 24. LEFAIN;
27. AGOSATRWYDD; 28. ODLI;
29. ESTRONIAID.

I lawr:
2. ANAP; 3. CYFRWY; 4. NODDFEYDD;
5. WEDI; 6. LLWYBRAU; 7. CYFRIN-ACHOL; 8. ALLAN O BRINT;
12. GWYNGALCHOG; 13. GWRTHRYFELA;
14. DINAS; 15. CAMFA;
19. DYRNAID; 20. ARCHWAETH;
23. CARRAI; 25. BORE; 26. TYDI.

CYSTADLEUAETH RHIF 46.
Ni dderbyniwyd ond un ymgais, ac er ei bod yn ganmoladwy, nid oedd yn hollol gywir, felly nid oes neb yn cael y tocyn llyfrau y tro hwn.

RHIF 47.
Cynigir tocyn llyfrau £5 y mis hwn eto gan obeithio y bydd yn denu rhagor y tro hwn. Enw neu ffugenw ar ymyl y croesair a'i anfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 20 Tachwedd.

---

***CYMRODORION CAERDYDD A CHAPEL EBENESER***

Cynhelir gwasanaeth am 3.30 Brynhawn Sul, Tachwedd 18fed yng Nghanolfan Siopa Dewi Sant (Mynedfa Heol Siarl) pan ddadorchuddir


**COFEB**
**YR HEN EBENESER**
**(1828 - 1978)**
**gan gyn- weinidog yr eglwys**
**Y Parchg Ddr Emlyn G. Jenkins**

**Darperir tê wedyn yn Festri Ebeneser, Heol Siarl**

**CROESO I BAWB**

Dewch i ymweld
â Siôn Corn,
yng
Nghanolfan yr Urdd,
Heol Conwy
Dydd Sadwrn,
Rhagfyr 8fed a'r 15fed
11am - 1pm
Tâl mynediad: 50c

Hefyd ar gyfer y
plant meithrin,
ar yr un amseroedd.
'Stori a Chân'



# PYTIAU

GOLEUEDIG: Cafodd cynhyrchiad cynta o "Brightside" gan gwmni theatr Lumiere & Son, Llundain dderbyniad gwresog yng Nghanolfan Chapter. Dyna beth oedd awr a chwarter o ganu, actio a dawnsio byrlymus gan berfformwyr ifanc, dawnus. Yn eu mysg oedd Rhys Powys, cyn-ddisgybl ym Mryntaf a Rhydfelen, sydd ar ei flwyddyn gynta fel actor proffesiynol.

YMDDEOL: Hwyl fawr i Mr.Alun Davies ar ei ymddeoliad o'r Swyddfa Gymreig. Bydd ganddo fwy o amser i arwain cymanfaoedd o hyn ymlaen. Dowch i'w gynorthwyo nos Sul Tachwedd 18 yng nghapel Minny St. am 8.00. Bydd yr elw tuag at Eisteddfod yr Urdd.

CYLCH CINIO'R MERCHED: Shân Emlyn fydd y siarad-wraig yng nghyfarfod nesa'r cylch nos Iau Tachwedd 8. Byddwn yn ymgynnull tua'r hanner awr wedi saith yng Ngwesty'r Phoenix, Heol Fidlas, Llanishen ac yn bwyta am wyth. Mae croeso i BAWB yno - dim ond i chi gysylltu ag un o'r ysgrifenyddion, Marian Jones (594378) neu Nia Hall Williams (752755) - cyn y Llun,Tachwedd 5 os gwelwch yn dda.

---

HYSBYS: Mae 'na deulu Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n awyddus i warchod a gofalu am blentyn o dan oed ysgol yn ystod y dydd. Am fanylion pellach cysylltwch â Chaerdydd 568654.

---

# CYFARCHION

DYMUNWN ADFERIAD llwyr i Ysgrifennydd gweithgar Tabernacl, Mr.D.Eurig Evans, a dreuliodd beth amser yn Ysbyty'r Brifysgol. Mae Mr.Evans yn brifathro Ysgol Gynradd Trowbridge.

BRYSIWCH WELLA: Da yw clywed bod Mrs.Rhiannon Bevan, Sain Ffagan, yn gwella. Roedd yn chwith iawn hebddi yn Eisteddfod Llambed. Gobeithio y bydd yn ôl yn ei swydd fel Trefnydd Cenedlaethol Sefydliad y Merched cyn bo hir.

---

Carreg Ateb,
18 Heol Don,
Yr Eglwys Newydd.

Annwyl Torth o Fara,
Mae fy'n Nghenwood Chef i yn medru gablwympio, crasgeneiddio, esgoneiddio, a mangraffnydio winwns! Wedyn, rhaid troi'r trydan ymlaen.
Yn gywir,

Martyn Williams.

# CROESO

CROESO i Dewi Evans o Lan Ffestiniog sydd newydd ymuno ag S4C fel peiriannydd. Gobeithio y bydd yn teimlo'n gartrefol yn ein plith.

CROESO ADRE! Da gan holl ddarllenwyr Y Dinesydd glywed bod Dr.Don Anderson yn ol adre. Gwellhad buan iddo.

---

DIM CÔR: Ni fydd Côr Penillion Tannau Taf yn cystadlu yn yr Wyl Gerdd Dant eleni. Piti mawr, medde chi? Wel ie a nage! Y rheswm am hynny yw bod eu harweinydd, Carys Williams, yn beirniadu yn yr Wyl. Hwyl fawr i Carys wrth feirniadu yng Ngwyl y Dathlu yn y Bala ac ar ei thomen ei hun!

---

# LLONGYFARCH

££££: Llongyfrchiadau i Bwyllgor Cymuned Trelai ar godi £700 tuag at gronfa'r Eisteddfod yn y ffair Hydref a gynhaliwyd ar faes y Ganolfan Hamdden ym mis Medi. Cafwyd prynhawn dymunol dros ben gyda pherfformiadau gwefreiddiol gan ddawnswyr Canolfan yr Urdd, plant Ysgol Arbennig Riverbank, Grwp Dawnswyr Creadigol, Ysgol Uwchradd yr Eglwysnewydd, Catrin Jones a Rachel Evans, Glantaf, a Mabsant. Mae'r pwyllgor am ddiolch i bawb am eu help a'u cefnogaeth.

---

ACHOS LLAWENYDD i eglwys y Tabernacl yw dyfodiad Mr.Geraint Morse i ddilyn cwrs bugeiliol ar gyfer y weinidogaeth yng Nghymru. Brodor o Benfro yw Geraint, ac wedi graddio mewn diwinyddiaeth yn Aberystwyth, cyflawnodd gwrs addysg yn Rhydychen cyn mynd yn athro yn Llundain. Ar ôl chwe mlynedd yno mae'n troi ei gamrau i gyfeiriad y weinidogaeth ac yn treulio peth o'i amser "yn y maes" yn y Tabernacl.

---

LLONGYFARCHIADAU i Eleri a Bryn Roberts ar enedigaeth merch fach Caren Sian, chwaer fach i Glesni Fflur.

PRIODAS DDA! Dymuniadau gorau i Ieuan Walters a Gwendoline Davies a briododd yng nghapel y Crwys ar 30 Mehefin. Mae'r ddau yn ymgartrefu yng Nghaerdydd.

PENBLWYDD HAPUS! Llongyfarchiadau i Mr.Gwilym Jenkins, Groesfaen, ar ei benblwydd yn 95 oed ar 19 Hydref. Mae Mr.Jenkins, sy'n hannu o Bontlliw, yn byw gyda'i wraig a'i ferch, Miss Eilonwy Jenkins, dirprwy brifathrawes ysgol Llanharri.

# CYDYMDEIMLAD

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Eifion Hopwood a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Eifion.

COLLEDION MINNY ST: Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Evan Morgan Jones, Western Avenue yn eu profedigaeth. Roedd yn aelod ffyddlon o'i gapel. Felly hefyd Gwyn Howells a fu farw'n ddiweddar. Roedd yn ddiacon yn y capel; bydd colled ar ei ôl yno ac ar ei aelwyd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

O'R TABERNACL, Yr Ais, daeth newydd am farwolaeth Mrs.Anita May Morgan, Heol-y-Delyn, Yr Eglwys Newydd, a hefyd am Mr.George Williams, Ystum Taf, tad Mr.David Arfon Williams a thadcu Llinos a Ceryth Wiliam. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd yn eu colled.

COLLED: Bu farw Evan Morgan Thomas o Landaf. Dyn tawel, diymhongar ydoedd a bydd llawer o Gymry Caerdydd yn ei gofio fel un oedd yn eu croesawu am flynyddoedd i Ffair Nadolig y Blaid oherwydd fe oedd yn derbyn tocynau wrth y drws. Fe'i magwyd ym Maesteg a bu'n byw yn Hwlffordd cyn dod i Gaerdydd i gadw siop bapurau. Roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Minny St. a chydymdeimlwn a'i ferch a'r ddau fab yn eu colled.

---

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

**Clerc/ Teipydd**

Mae angen Clerc/Teipydd i weithio yn ein Adran Rhaglenni Ysgafn yn ein canolfan newydd yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd.

Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu personoliaeth ddymunol, y gallu i deipio yn gyflym a chywir a'r ddawn i weithio dan bwysau pan fydd angen.

Cyflog, £5,246 y flwyddyn, yn cynnwys atodiadau lleol, yn cael ei arolygu ar hyn o bryd. Cyfleusterau gweithio ardderchog.

Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DI/392 at: Rheolwr Staffio, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV